

Dweud Diolch

Cynllunio a dathlu Diolchgarwch yn eich ysgol

- **Paratoi'r ffordd:** Defnyddiwch PwyntPwer Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgolion a'r sgrïpt isod. Lawr lwythwch y PwyntPwer o caid.org.uk/harvest-schools
- **Mynd yn ddyfnach:** Mae gennym nifer o syniadau (tudalen 5 ymlaen) ar gyfer creu dathliad Diolchgarwch ar gyfer eich dosbarth neu ysgol.
- **Cynaeafu'r dysgu:** Rhowch ystyriaeth i'r syniadau ar gyfer gweithredu (tudalen 4 a 7) - oes yna rywbeth y gall eich dosbarth neu ysgol ei wneud?
- **Rhannu eich dysgu:** Sut fydddech chi'n ysgogi gweithredu yn eich cymuned leol?

GWASANAETH

Cyflwyniad

Os gallwch, sefydlwch lecyn ffocal yn defnyddio defnydd gwyrdd, melyn ac oren, a phowlen o hadau blodau haul mewn ffordd y gall y plant weld yr hadau'n glir. Rhowch y sleid gyntaf ar y sgrin.

Dangoswch un hedyn blodau haul i'r plant

Tybed be allwn ni ddysgu gan un hedyn bach fel hwn? Heddiw rydw i am inni i gyd ddefnyddio ein dychymyg, ein gallu i wrando, myfyrio a chwestiynu, er mwyn dysgu am y potensial sydd mewn gweithredoedd bach a sut y gallwn sefyll gyda'n gilydd fel cymdogion byd eang.

Arhoswch yn dawel am foment a daliwch yr hedyn i fyny.

Beth tybed allwn ni ddysgu gan hedyn bach iawn?

Dangoswch Sleid 1

Rwan edrychwch ar y llun ar y sgrin: Tybed ... be welwch chi? *Defnyddiwch glic arall i ddangos y geiriau ar y sleid.*

Ar yr wyneb does fawr i'w weld ... ond o dan y pridd mae yna wyrth ryfeddol yn cymryd lle.

O dan y pridd mae'r hadau yn dechrau egino, yn ffrwydro i fywyd, yn tyfu a ffynnu.

Dangoswch Sleid 2

Be welwch chi rwan? *Defnyddiwch glic arall i ddangos y geiriau ar y sleid.*

Mae'r blodau haul hyn yn sefyll ochr yn ochr, yn eu lliw godidog. Wrth i'r haul symud trwy'r awyr maent yn troi eu hwyneb i ddilyn ... yn llyncu pelydrau'r haul, a'i ddefnyddio fel tarddiad eu hegni a'u maeth. Ond mae'r blodau tal, cryf hyn wedi cychwyn eu bywyd fel hadau bach, wedi eu cuddio o dan y ddaear. Mae pob hedyn yn llawn potensial tyfiant a thrawsnewid.

Cychwynnodd y blodau hyn eu bywyd yn union fel yr hedyn hwn – *dangoswch yr hedyn i'r plant i'w hatgoffa.* Pwy feddylia fod yna gymaint o botensial mewn hedyn mor fychan!

Os ydych yn chwilio'n ofalus ar y blodyn haul ei hun, fe welwch ei fod yn cynnwys cannoedd o hadau bach newydd - y potensial am gannoedd o blanhigion newydd. Mae cylch gwyrthiol bywyd yn dal i droi.

Allwch chi ddweud wrtha i pa elfennau sydd eu hangen i alluogi'r hadau i egino a thyfu i fod yn blanhigyn mawr? *Gadewch i'r plant wneud awgrymiadau.*

Dangoswch Sleid 3

Eglurwch yn fyr yr elfennau sydd eu hangen ar gyfer tyfiant a datblygiad planhigion.

Mae'r hedyn yn cael ei blannu yn y pridd, ac mae gweithred yr aer, dŵr a'r haul gyda'i gilydd yn ei egino a thyfu.

Un o'r pethau allweddol sy'n galluogi'r hedyn i dyfu yw goleuni'r haul. Mae'r egin yn defnyddio egni'r haul a'i droi'n fwyd fel ei fod yn gallu tyfu.

Dangoswch Sleid 4

Ble byddem ni heb yr haul? Heb yr haul fyddai'r had ddim yn tyfu. Heb yr haul, fyddem ni ddim yn gallu byw ar y ddaear. Mae'r haul yn rhoi goleuni, cynhesrwydd, egni, nos, dydd a thymhorau inni.

Heddiw rydym am glywed hanes grŵp o ferched rhyfeddol sydd wedi dod at ei gilydd i wneud bywyd yn well ar gyfer eu teuluoedd a'u cymuned. Gyda'i gilydd, maent wedi darganfod ffordd i ddefnyddio egni'r haul i drawsffurfio eu bywyd ac i wynebu rhai o heriau newid hinsawdd.

Tybed allwch chi ddweud wrtha i beth a olygir wrth newid hinsawdd? *Gadewch i'r plant awgrymu ac os bydd angen defnyddiwch yr eglurhad isod.*

Mae newid hinsawdd yn gwneud i'r tywydd o amgylch y byd i fod yn fwy eithafol neu'n anrhagweladwy. Mae llygredd, yn rhannol wedi ei achosi gan bobl sy'n llosgi ynni ffosil, wedi achosi i atmosffer y Ddaear ddal gafael ar fwy o wres yr haul, fel planced o amgylch y byd. Felly, oherwydd bod y Ddaear yn gynhesach, mae'r tywydd yn newid ac yn fwy cymysg ac ansicr.

Rwan, gadewch inni wrando ar stori Agar.

Dangoswch Sleid 5

Dyma Agar gyda'i mam a rhai o'r teulu.

Dangoswch Sleid 6

Mae Agar yn 11 oed ac yn byw yn Ethiopia. Allwch chi ddarganfod Ethiopia ar y map?

Yn ne Ethiopia, ble mae Agar yn byw, mae cymunedau yn dibynnu ar ffermio i fyw. Mae yna sychder yn aml oherwydd newid hinsawdd, sy'n golygu bod anifeiliaid yn marw ac mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael digon o fwyd.

Does gan nifer o bentrefi ddim trydan. Felly mae teuluoedd yn dibynnu ar goed tân i ddarparu ynni i'w cartrefi – ar gyfer goleuni, gwres a choginio. Mae hyn yn golygu bod nifer o goed yn cael eu torri i lawr ac nid yn rhan o'r dirwedd bellach. Rhaid i'r merched gerdded pellter maith yn aml i chwilio am goed, sydd yn drwm ac yn beryglus.

Dangoswch Sleid 7

Ym mhentref Agar, mae teuluoedd wedi gorfod addasu i'r hinsawdd sy'n newid a'i effaith, a hefyd canfod ffyrdd eraill o wneud bywoliaeth sydd ddim yn unig yn dibynnu ar ffermio.

Mae mam Agar, Aster, a rhai o'r merched eraill yn eu pentref wedi sefyll yn wyneb heriau newid hinsawdd a thlodi. Mae'r merched wedi darganfod ffordd o harnesu'r haul er daioni eu teuluoedd a'u cymuned - a defnyddio'r heulwen fel ffynhonnell. Gyda'i gilydd maent wedi canfod ffordd i drawsffurfio eu bywyd.



Dangoswch Sleid 8

Gyda chefnogaeth Cymorth Cristnogol – elusen sy'n helpu cymunedau tlawd – mae Aster a'i ffrindiau wedi sefydlu siop sy'n cael ei ynni gan yr haul.

Mae ynni haul yn golygu bod ganddynt drydan yn y siop ar gyfer gwerthu dŵr oer. Mae Aster a'i ffrindiau yn gwerthu'r dŵr oer yn y siop, sy'n eu helpu i ennill mwy o arian ar gyfer eu teuluoedd.

Mae dysgu sut i harneisio ynni'r haul wedi gwneud gwahaniaeth i'w gwaith ac mae wedi gwneud gwahaniaeth yn eu cartref hefyd.

Dewch inni weld pa wahaniaeth a wna i'n ffrind Agar ...

Dangoswch Sleid 9

Dyma dŷ Agar. Ar be sylwch chi? Dewch inni edrych yn fwy gofalus.

Dangoswch Sleid 10

Mae gan gartref Agar banel solar bach. Er mai cymharol fychan yw'r panel, mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i Agar a'i theulu. Mae'n debyg i'r hedyn bach a welsom ni yn gynharach - sy'n defnyddio egni'r haul i'w helpu i dyfu a'i drawsnewid o fod yn hedyn i fod yn blanhigyn mawr. Mae'r panel bach yn sugno'r heulwen ac egni'r haul i gynhyrchu digon o drydan i oleuo cartref Agar.

Mae gan Agar a'i theulu lamp solar, diolch i bartner Cymorth Cristnogol. Mae hyn yn beth da iawn, fel yr eglura mam Agar:

'Bychan ydi'r lamp solar ond mae wedi newid fy mywyd i ac iechyd ac addysg fy mhlant yn llwyr. Rwan maent yn gallu darllen mor hir ag y dymunent.'

Dangoswch Sleid 11

Dangoswch y llun yn unig

Dangoswch Sleid 12

Mae Agar wrth ei bodd yn darllen. Cyn hyn roedd yn anodd darllen, yn enwedig gyda'r nos, gan mai dim ond y tân coed oedd yn rhoi goleuni, a oedd yn gwneud y tŷ yn fyglyd iawn.

Rwan, mae Agar yn gallu darllen trwy ddefnyddio'r goleuni a gynhyrchir gan y lamp solar. Mae'n gallu dysgu a gwneud ei gwaith cartref – mae hyn yn rhoi'r cyfle iddi dyfu a datblygu ei sgiliau a'i thalent wrth iddi fynd yn hŷn – i wireddu rhai o'i breuddwydion a chyrraedd ei photensial. Dywed Agar:

'Ynghynt, roeddem yn defnyddio tân coed ac roedd y mwg yn ein heffeithio. Rwan rydym yn gallu gwneud ein gwaith cartref ar unrhyw adeg a does dim problem efo'n llygaid. Rydw i am fod yn athro ac am ddysgu mathemateg.'

Tybed be allwn ni ddysgu gan:

- yr hedyn a'r blodyn haul?
- Agar a'i theulu?

Rhowch ychydig o amser tawel i'r plant gael myfyrio am y cwestiwn ac yna rhoi amser iddynt drafod gyda'r person nesaf atynt.

Gofynnwch i'r plant rannu eu meddyliau a'u syniadau.

Dangoswch Sleid 13

Mae stori Agar yn ein hatgoffa - dim ots ble rydym yn byw yn y byd - ein bod i gyd yn byw dan yr un haul a'n bod i gyd yn gymdogion i'n gilydd o amgylch y byd. Mae'r hyn sy'n digwydd yn un rhan o'r byd yn cael effaith ar ran arall ohono. Nid ydym yn byw ar ein pen ein hunain.

Mae newid hinsawdd yn creu patrwm tywydd anarferol o amgylch y byd. Mae hyn yn gwneud bywyd yn galetach i bobl mewn gwledydd tlawd – ac eto gwledydd cyfoethog sydd wedi gwneud y mwyaf i greu newid hinsawdd, trwy ddefnyddio gormod o geir, gormod o drydan ac yn y blaen.

Dangoswch Sleid 14

Mae defnyddio ynni'r haul yn beth da. Yn hytrach na phwmpio ynni budr i'r awyrgylch, mae ynni solar yn naturiol ac yn helpu i gadw'r byd yn lân. Ac fel y clywsom, mae ynni solar yn helpu plant fel Agar i dyfu yn hapus.

Mae Agar, ei mam a'i ffrindiau wedi sefyll gyda'i gilydd i herio effaith newid hinsawdd ac i ofalu am y byd.

Tybed sut allwn ni i gyd wneud gwahaniaeth i'r byd a'n cymdogion byd eang?

Dangoswch Sleid 15

Efallai bod dewisiadau y gallem eu gwneud yn yr ysgol neu yn y gymuned leol fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'r byd?

Efallai y gallem ganfod mwy am sut y gallem ddefnyddio ynni solar yn ein cymuned?

Efallai y gallem feddwl am dir yr ysgol a chanfod ffyrdd o'i wneud yn fwy ecogyfeillgar?

Efallai y gallem fesur faint o ynni a ddefnyddir yn yr ysgol fydd yn ein helpu i feddwl am sut i ddefnyddio llai?

Efallai y gallem feddwl am syniad codi arian tuag at blant fel Agar i gael lampau solar?

Yn ystod y dydd, meddyliwch am weithredoedd y gallem eu gwneud y Diolchgarwch hwn i wneud gwahaniaeth yn ein byd a sefyll yn ymyl Agar, ei mam Aster a'i ffrindiau. Rhannwch y syniadau hyn gyda'ch athro.

Myfyrdod i gloi

Dangoswch Sleid 16

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod yn dal hedyn blodyn haul yn eu llaw, neu os gallwch, rhwng hedyn yr un iddynt. Rhowch lun o flodyn haul ar y sgrin. Chwaraewch gerddoriaeth ddistaw, fyfyrion.

Mae gan yr hedyn bach hwn y potensial i dyfu i fod yn blanhigyn rhyfeddol - i gael ei drawsnewid. Mae'r potensial gennym i gyd i wneud gweithredoedd bach bob dydd, y gallent efo'i gilydd drawsffurfio'r byd.

Tybed pa weithredoedd bach wnewch chi?

Gweithred

Trefnwch ddigwyddiad fel dosbarth fydd yn hysbysu pobl o'r heriau y mae Aster, Agar a'u cymuned yn eu hwynebu a'r ffyrdd y maent wedi cydsefyll i drawsffurfio eu bywyd.

Gallwch gynnwys digwyddiad codi arian fel y gallwch chwithau hefyd sefyll gydag Agar y Diolchgarwch hwn. Ewch i dudalen 7 am syniadau gwahanol.



CYSYLLTIADAU TRAWS GWRICWLWM



Dewiswch o'r syniadau dysgu canlynol:



Gwyddoniaeth

- Dysgwch am gylch tyfiant planhigion, yn cynnwys ffotosynthesis. Plannwch hadau, gofawch amdanynt a chadwch lygaid ar eu tyfiant a'u datblygiad.
- Dysgwch am ddefnyddio'r haul fel ffynhonnell ynni ac ystyriwch esiamplau o sut y defnyddir ac y datblygir ynni haul.



Mathemateg

- Dysgwch am ddilyniant Fibonacci a sut y gwelir y patrwm hwn yn y blodyn haul. Ym mhle arall y gellid gweld y patrwm hwn?



Daeryddiaeth

- Dysgwch am newid hinsawdd a'i effaith ar ein byd. Efallai yr hoffech ddefnyddio ein hadnoddau 'Crazy Climate' neu 'Window on the World' ar gyfer ysbrydoliaeth.
- Mesurwch eich ôl troed carbon.
- Darganfyddwch ffyrdd i fod yn fwy eco-gyfeillgar fel dosbarth/ysgol. Allech chi gynnal cystadleuaeth i weld pa ddosbarth sydd yn fwyaf gofalus wrth ddefnyddio eu hadnoddau pob wythnos?
- Defnyddiwch adnodd 'Global Explorers' i ddysgu mwy am Ethiopia fel gwald ac am waith Cymorth Cristnogol yno.



Addysg Grefyddol

- Gwrandewch ar stori Sant Ffransis o Assisi a sut yr oedd yn parchu a gofalu am yr holl greadigaeth. Sut mae Cristnogion yn ceisio dangos parch tuag at y greadigaeth ac yn gofalu am y byd yr ydym yn byw ynddo?
- Dysgwch am sut y mae Cristnogion yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol yn ceisio bod yn stiwardiaid da o'r greadigaeth.
- Archwiliwch gredoau ynghylch lle cymuned a chydaddoldeb oddi fewn i amrediad o grefyddau gwahanol a bydolwg digrefydd.



Celf

- Myfyriwch ar y defnydd o oleuni mewn cyfres o gelfyddyd gwahanol, e.e. Celf gan Turner neu Van Gogh.
- Crëwch eich paentiad eich hun gan ganolbwyntio ar oleuni, yn dilyn ffurf artist o'ch dewis.



Astudiaethau cymdeithasol

- Edrychwch ar neu defnyddiwch adnodd ‘Prayer Spaces in Schools’ i greu llecyn myfyrio y Diolchgarwch hwn. Wedi clywed stori Agar, allai'r plant greu eu gorsaf myfyrio eu hunain yn y dosbarth?
- Ewch ‘am dro’r synhwyrâu’ a thrwy ddefnyddio camera digidol, tynnwch luniau o’ch amgylchedd y tu allan a gwnewch gyflwyniad o’r lluniau i’w rannu gyda dosbarth arall.
- Ystyriwch ‘gylchoedd dylanwad’ – sut allwn ni wneud gwahaniaeth yn y byd – beth wnawn ni i wneud gwahaniaeth? Er enghraifft, newid ein ffordd o fyw, ymgyrchu, dweud wrth eraill.
- Sgiliau dysgu: trwy ddefnyddio ffurf ‘ymchiliad cymuned’, defnyddiwch un o’r lluniau o’r PwyntPwer neu stori Agar i gynhyrchu cwestiynnau ac i ysgogi trafodaeth ynghylch pwysigrwydd ynni adnewyddol ac effaith newid hinsawdd.
- Paratowch ddigwyddiad rhannu gwybodaeth/codi arian. Meddyliwch am yr agweddau ymarferol – gwneud posteri ayyb.
- Crewch gyflwyniad lluniau/cerddoriaeth i gyfleu’r neges ynghylch y pwysigrwydd o fynd i’r afael a newid hinsawdd.



Llythrennedd

- Paratowch gyflwyniad i ddosbarth arall – neu i rieni neu aelodau eich cymuned leol– ar y pwysigrwydd o fod yn gymydog byd eang da. Rhannwch gyda hwy’r hyn yr ydych wedi ei ddysgu am Agar a’i theulu, a gan y merched sydd wedi cydsefyll i drawsnewid eu bywydau.



Dawns/drama

- Mae stori Aster yn llawn gobaith ac yn esiampl o sut y gall pobl drawsnewid pethau trwy gydweithio. Crëwch ddawns/ddrama fer yn seiliedig ar y thema trawsnewid.





SYNIADAU ERAILL I'R YSGOL

Diolchgarwch mewn diwrnod • Diwrnod traws-gwricwllwm ar gyfer yr ysgol gyfan

Trefnwch y plant unai yn eu dosbarthiadau neu mewn grwpiau aml-oed ac yna defnyddio'r patrwm isod i gynnal diwrnod sy ddim yn dilyn y drefn arferol.



Dechreuwch gyda gwasanaeth/addoliad ar y cyd i gyflwyno thema Diolchgarwch. Lawr lwythwch ein taflen addoli ar y cyd yn caid.org.uk/harvest-schools



Yna rhannwch y diwrnod i dri rhan ar gyfer gweithdai. Sicrhewch fod pob grŵp yn archwilio un gweithdy ar newid hinsawdd ac un yn myfyrio ar stori Agar.



Dewch a'r diwrnod i ben trwy gasglu pawb at ei gilydd i rannu gwaith a gwybodaeth y dydd. Gwahoddwch gymuned ehangach yr ysgol i fod yno, yn cynnwys rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr ysgol.



Os ydych am gynnwys digwyddiad codi arian ar gyfer Cymorth Cristnogol, yna gallech ddefnyddio peth o amser gweithdy i baratoi ar gyfer hyn, e.e. gwneud crefft i'w werthu. Neu gallech sefydlu arddangosfa gelf/barddoniaeth yn dangos y gwaith a gynhyrchwyd mewn gweithdy, neu gyflwyno perfformiad o'r ddawns/ddrama a chodi tâl mynediad fel modd i godi arian.

Gwelwch isod be allai eich ysgol ei helpu i ariannu'r Diolchgarwch hwn.

Codwch arian y Diolchgarwch hwn!

Y Diolchgarwch hwn, bydd pob £1 a roir gan eich ysgol werth £5, diolch i arian yr Undeb Ewropeaidd. Dyma y gellid ei brynu gyda'ch arian:

- Caiff eich £16 ei luosogi i £80 a rhoi lamp solar i bump o ferched yn eu cartrefi, gan helpu plant fel Agar i wneud eu gwaith cartref.
- Caiff eich £75 ei luosogi i £375 a hyfforddi pum grŵp o ferched i ddefnyddio lampau solar i dyfu eu busnes.
- Caiff eich £200 ei luosogi i £1,000 a rhoi ynni haul i gartref cyfan pump o ferched, gan eu rhyddhau o orfod cario coed tân mor aml.